OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 950 (Cy.99)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud	- -	*28 Mawrth 2006*
Yn dod i rym	- -	*31 Mawrth 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Adran 156(4) o Ddeddf Tai 1985(**1**) sydd bellach wedi eu breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 31 Mawrth 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Corff penodedig

2. Pennir bod Church House Trust plc (Cwmni Rhif 0980698) yn sefydliad benthyca cymeradwy at ddibenion adran 156 o Ddeddf Tai 1985 (blaenoriaeth arwystlon)(**3**).

(**1**) 1985 p.68; cafodd adran 156(4) ei diwygio gan baragraff 106 o Atodlen 17 i Ddeddf Tai 1988 (p.50), gan baragraff 22(1)(c) o Atodlen 18 a Rhan XIII o Atodlen 19 i Ddeddf Tai 1996 (p.52), gan adran 140 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) a pharagraff 5 o Atodlen 16 iddi a chan Orchymyn Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000 (Diwygiadau Canlyniadol a Dirymiadau) 2001 (O.S. 2001/3649).

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) Cafodd adran 156 ei diwygio hefyd gan adran 24(1) o Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 (p.63) a pharagraffau 1(2) a (5) o Atodlen 5 iddi, gan adran 120(3) a (4) o Ddeddf Diwygio Prydlesoedd, Tai a Datblygiad Trefol 1993 (p.28) a chan adran 135 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 (p.9) ac Atodlen 13 iddi.